*This document is available in English* **Rhif ar yr agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18/03/19** |
| Swyddog Arweiniol | **Colin Everett, Clerc yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens, Dirprwy Glerc (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau sydd ynghlwm.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub am ei weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor ynghlwm i'r Aelodau ei ystyried.

**ARGYMHELLIAD**

4 Argymhellir fod yr aelodau'n nodi'r adroddiad blynyddol.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**2018/19**

## Cefndir

Dyma'r pedwerydd adroddiad ar ddeg gan y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2018 hyd fis Mawrth 2019. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu derbyn adroddiadau a chwynion am Aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod.

## Aelodaeth

Fe wnaeth yr aelodau annibynnol newydd, sef Sally Ellis a Julia Hughes, fynychu eu cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2018.

Daeth cyfnod swydd David Morris i ben ar 31 Awst 2018. Gan ei fod wedi cyrraedd diwedd ei ail gyfnod, nid oedd yn gymwys i gael ei ailbenodi.

Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio ar-lein ar y cyd â Chyngor Gwynedd i gael aelod annibynnol newydd, a rhoddwyd hysbysebion mewn dau bapur newydd yn unol â'r ddeddfwriaeth ond ni ddaeth unrhyw geisiadau i law. Cynhelir ymarferiad recriwtio arall i lenwi'r swydd.

Felly, dyma aelodau'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd:

<u>Aelodau Annibynnol</u>
Antony P Young 01/04/16 - 31/03/20
Sally Ellis 01/01/18 – 31/12/2021
Julia Hughes 01/01/18 – 31/12/2021

<u>Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Dylan Rees (19/06/18 ymlaen)
Y Cynghorydd Owen Thomas (19/06/18 ymlaen)

## Presenoldeb a Materion a Drafodwyd

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ddwywaith yn ystod y flwyddyn.

Ar 2 Hydref 2018, roedd yr holl Aelodau'n bresennol. Cafodd Antony Young ei benodi'n Gadeirydd a chafodd Julia Hughes ei phenodi'n Ddirprwy Gadeirydd.

Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r holl godau a phrotocolau o fewn y Cyfansoddiad er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn dal yn berthnasol. Cytunwyd ar amserlen i gyflawni hyn o fewn dwy flynedd.

Fe wnaeth yr Aelodau adolygu'r protocolau diwygiedig ar gyfer derbyn rhoddion a lletygarwch a'r cod ymddygiad a'r protocol ar gyfer cysylltiadau rhwng aelodau a gweithwyr. Mae'r ddau brotocol wedi'u cynnwys yn y cyfansoddiad diwygiedig i'r Awdurdod ei gymeradwyo.

Cafodd yr Aelodau adroddiad ar ganllawiau Panel Dyfarnu Cymru ar gosbau. Cafodd cynnwys y canllawiau eu nodi, a chytunodd yr Aelodau i gefnogi cam gweithredu Cynhadledd Safonau Cymru gyfan, sef bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn amrediad a hyblygrwydd y cosbau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru.

Bu'r Pwyllgor yn trafod presenoldeb y cynghorwyr yng nghyfarfodydd yr ATA a sut i wella ac annog presenoldeb yn y cyfarfodydd. Un dewis oedd gofyn i'r holl gynghorwyr gytuno ar bolisi gwirfoddol a fyddai'n golygu gorfod mynychu o leiaf 50% o'r holl gyfarfodydd neu gael eu hystyried i gael eu dad-ddewis. Er mwyn cymryd camau pellach, byddai'n rhaid i bob cyngor gytuno ar bolisi o'r fath a hefyd byddai'n rhaid i Aelodau'r Awdurdod ei gymeradwyo.

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 7 Chwefror 2019. Yn y cyfarfod hwn, bu'r Aelodau'n ystyried y fersiwn ddiwygiedig o bolisi cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod a dogfen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y polisi cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Cytunwyd argymell bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r ddwy ddogfen ochr yn ochr â'i gilydd. Roedd y weithdrefn gwynion cam 3 ar gyfer Aelodau'r ATA wedi cael ei diwygio, a chytunwyd ei hargymell i'r Awdurdod ei gymeradwyo.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am bresenoldeb aelodau'r ATA yn y cyfarfodydd. Nodwyd bod camau anffurfiol wedi cael eu cymryd i ddatrys rhai o'r problemau presenoldeb, felly cytunodd yr aelodau i gadw golwg ar y mater yn y cyfarfodydd sydd i ddod.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni fu cwyn ynglŷn ag aelod o'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn cael ei reoli o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Ers 2012, gall aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau hawlio cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Am fynychu cyfarfodydd eleni, mae cyfanswm o £671.80 wedi ei hawlio.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19.